Coed A Datblygiadau

1 CYFLWYNIAD

1.1 **Mae'r Nodyn hwn yn un o gyfres o Nodiadau Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA), sy'n ymhelaethu ar bolisïau'r cynllun datblygu a materion eraill mewn diwyg clir a chryno gyda'r nod o wella dyluniad ac ansawdd datblygiadau newydd. Bwriad y Nodiadau yw cynnig canllawiau bras a fydd o gymorth i aelodau'r cyhoedd a swyddogion mewn trafodaethau cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio ac o gymorth i swyddogion wrth drin ac aelodau wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.**

2 STATWS A CHAMAU PARATOI

2.1 Nid yw Nodiadau CCA y Cyngor yn rhan o'r cynllun mabwysiedig. Serch hynny, maent wedi bod yn destun penderfyniad ffurfiol gan y Cyngor ac ymgynghoriad â'r cyhoedd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (Y Cynulliad) wedi cadarnhau, yn dilyn ymgynghoriad â'r cyhoedd a chymeradwyaeth ddilynol gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl), y gall CCA gael ei drin fel ystyriaeth gynllunio berthnasol pan fydd Awdurdodau Cynllunio Lleol, Arolygwyr Cynllunio a'r Cynulliad yn penderfynu ceisiadau ac apeliadau cynllunio. Cymeradwywyd y Nodyn hwn gan y Cyngor ar Mawrth 18fed 2003 i'w ddefnyddio wrth reoli datblygiadau. Mae datganiad yn nodi'r ymgynghori a gyflawnwyd, y sylwadau a dderbyniwyd ac ymateb y Cyngor i'r sylwadau hyn ar gael fel dogfen ar wahân.

2.2 Paratowyd y Nodiadau hyn yn unol â'r canllawiau a gynhwysir yn Polisi Cynllunio Cymru; Cynlluniau Datblygu Unedol (Cymru); Nodiadau Cyngor Technegol.

3 CEFNDIR

3.1 Gall coed ar safle datblygu wneud cyfraniad pwysig nid yn unig i werth cadwraeth natur/bioamrywiaeth y safle ond hefyd i'w ansawdd yn gyffredinol a'i werth masnachol. Hefyd gallant wella dymunoldeb cyffredinol neu gyhoeddus yr ardal hefyd. Felly maent yn ystyriaeth sylfaenol wrth ystyried ceisiadau cynllunio. Mae'r CCA hwn yn darparu cyfarwyddyd ynghylch sut y gellir ac y dylid gwarchod coed sy'n bodoli eisoes ar safleoedd datblygu. Mae CCA 2; "Tirlunio Datblygiadau Newydd" yn ymdrin â thirlunio ychwanegol yn cynnwys coed newydd.

4 POLISI

4.1 Dylid edrych yn arbennig ar Bolisi ENV7 y CDU, Nodweddion Tirlun/Treflun. Prif fyrdwn y polisi hwn yw cynnal a chadw a gwella ansawdd a gwerth amgylchedd naturiol Sir Ddinbych. Mewn perthynas â choed mewn datblygiadau, yr amcan yn fras yw cadw cymaint ag y bo modd o goed, yn arbennig y rhai o safon uwch, fel rhan o'r datblygiad.

4.2 Dylid ystyried coed fel rhan hanfodol o'r broses gynllunio a dylunio. Ni ddylid dim ond gwarchod y coed ar y ffiniau a chlirio'r holl goed yn y canol i wneud y gorau o'r ardal y gellir ei datblygu ac effeithlonrwydd y gwaith adeiladu. Fodd bynnag, a hwythau'n aeddfed, gall uchder neu led canghennau llawer o rywogaethau o goed fod yn fwy na 20m ac felly byddant yn tra-arglwyddiaethu ar adeiladau sengl a deulawr ac yn gorchuddio neu'n effeithio ar ran sylweddol o'r safle. Mae angen blaengynllunio felly o gamau cyntaf y datblygiad er mwyn asesu bodolaeth y coed a ffurfio cynllun ar gyfer rheoli'r adnoddau o goed yn yr hirdymor

5 Y BROSES

5.1 Y nod yn gyffredinol yw i gynlluniau datblygu fod wedi'u dylunio a'u hadeiladu er mwyn osgoi'r angen am dorri coed. Yn y gorffennol mae llawer o goed mewn ardaloedd trefol/datblygedig wedi'u colli oherwydd datblygiadau. Mae hyn yn rhoi gwerth ychwanegol i'r rhai sy'n weddill a'r rhai newydd a gyflwynir. Ymgynghorir â'r Prif Swyddog Cefn Gwlad – Coetiroedd a Chadwraeth ynghylch yr holl geisiadau cynllunio perthnasol.

5.2 Y cam cyntaf yw cyflawni arolwg coed sy'n darparu sylfaen ar gyfer penderfynu pa goed ddylid eu cadw. Un mater pwysig yn y cyfnod hwn yw ystyried y math o ddatblygiad a fwriedir ac effaith twf y gwreiddiau a'u lled yn y dyfodol. Dylid rhoi ystyriaeth i effaith twf y gwreiddiau o safbwynt (a) difrod ffisegol i wasanaethau/sylfeini/waliau, a (b) lefel trwythiad/cynnwys lleithedd. Asesir digonoldeb yr holl arolygon coed a gyflwynir fel rhan o'r broses cais cynllunio.

5.3 Yn ddelfrydol, dylai arolwg coed gael ei baratoi gan berson profiadol mewn coedyddiaeth fydd, wrth asesu, yn rhoi sylw arbennig i'r canlynol:-

i) iechyd, hoen a chyflwr pob coeden;

ii) unrhyw ddiffygion strwythurol ym mhob coeden, a'u disgwyliad einioes;

iii) maint a ffurf pob coeden, a'i haddasrwydd yng nghyd-destun y datblygiad arfaethedig ar y safle;

iv) lleoliad pob coeden mewn perthynas â nodweddion presennol y safle, e.e. ei gwerth fel sgrin neu nodwedd ar y gorwel;

(v) y cyfraniad at gymeriad a dymunoldeb yr ardal o amgylch.

Hefyd, yn unol â BS 5837:1991, gellir categoreiddio coed i'r canlynol, a nodir yn eglur ar y cynlluniau -

(a) coed y mae'n hynod ddymunol eu cadw: categori uchel

(1) coed hoenus iach, o ffurf dda, ac mewn harmoni â'r gofod a'r strwythurau arfaethedig;

(2) coed ieuanc iach o ffurf dda, mewn harmoni o bosibl gyda'r datblygiad arfaethedig;

(3) coed ar gyfer sgrinio neu feddalu effaith y strwythurau presennol yn yr ardal gerllaw, neu o bwysigrwydd gweledol arbennig yn yr ardal;

(4) coed o werth hanesyddol, coffadwriaethol neu arall, neu enghreifftiau da o rywogaethau prin neu anarferol;

(b) coed y mae'n ddymunol eu cadw: categori cymedrol -

(1) coed a allai gael eu cynnwys yn y categori uchel, ond oherwydd eu niferoedd a'u cyflwr sydd braidd yn ddiffygiol, maent yn is eu safon gan ffafrio'r unigolion gorau;

(2) coed anaeddfed, gyda'r potensial i ddatblygu i'r categori uchel;

(c) coed y gellid eu cadw: categori isel -

(1) coed mewn cyflwr digonol, neu y gellir eu cadw gyda ychydig o waith trin, ond nad ydynt yn haeddu cael eu cynnwys yn y categorïau uchel na chymedrol;

(2) coed anaeddfed, heb unrhyw rinweddau arbennig;

(d) coed ar gyfer eu dileu: categori torri -

(1) coed marw neu beryglus yn strwythurol;

(2) coed gyda gwreiddiau ansicr;

(3) coed gyda phydredd ffyngaidd sylweddol yn y sylfaen neu'r prif foncyff;

(4) coed gyda thwll neu dyllau sy'n creu perygl i ddiogelwch;

(5) coed fydd yn beryglus ar ôl torri coed eraill, am y rhesymau a nodir yn eitemau 1 i 4.

5.4 Yn sylfaenol, dylid ffafrio cadw'r coed yn y categorïau uchel a chymedrol. Fel rheol, dim ond os nad ydynt yn peri rhwystr sylweddol i'r datblygiad y cedwir y coed yn y categorïau isel. Dylid plannu coed eraill o

rywogaeth debyg yn lle'r coed yn y categorïau uchel a chymedrol a dorrir wrth adeiladu. Fodd bynnag, dylid bod modd cadw coed marw fel nodwedd amwynder ac o safbwynt cadwraeth natur/bywyd gwyllt oherwydd eu gwerth i fioamrywiaeth, yn amodol ar ystyriaethau diogelwch.

6 GWARCHODAETH GYFREITHIOL

6.1 Ceir nifer o fathau o warchodaeth a roddir i goed dan y ddeddfwriaeth gynllunio -

(a) Ardaloedd Cadwraeth

Mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, yn dweud na cheir gwneud unrhyw waith fydd yn effeithio ar goed dros faint arbennig sydd wedi'u lleoli mewn Ardal Gadwraeth heb roi chwe wythnos o rybudd ysgrifenedig o'r bwriad i'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn dechrau ar y gwaith hwn. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r Awdurdod Cynllunio Lleol lunio Gorchymyn Cadw Coed i warchod y coed hyn os yw hynny'n briodol.

(b) Gorchmynion Cadw Coed (GCC)

Gellir gwarchod grwpiau unigol neu goetiroedd gyda Gorchymyn Cadw Coed dan ddarpariaeth Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae Gorchymyn Cadw Coed yn atal torri, tocio, brigdorri, dadwreiddio, difrodi neu ddinistrio coed yn fwriadol, ac eithrio dan rai amgylchiadau, h.y. pan fo'r goeden wedi marw, yn marw neu'n beryglus, ar wahân i gyda chaniatâd yr Awdurdod Cynllunio Leol. Bydd y coed o'r ansawdd gorau yn yr ardal, o ran eu cyflwr a'u gwerth amwynder, yn cael eu gwarchod gan Orchymyn Cadw Coed..

(c) Amodau Cynllunio

Gellir gwarchod coed hefyd drwy gyfrwng amodau cynllunio cysylltiedig â chaniatâd cynllunio, gan atal heb ganiatâd/cytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr ACLl y weithred o docio, brigdorri neu dorri coed. Defnyddir amodau cynllunio i warchod coed gwerthfawr o safbwynt dymunoldeb nad ydynt yn deilwng o Orchymyn Cadw Coed. Gellir defnyddio amodau cynllunio i sicrhau gwarchod coed ar y safle yn ystod y camau clirio ac adeiladwaith hefyd.

6.2 Ceir Gorchmynion Cadw Coed ac amodau cynllunio mewn dogfennau cyfreithiol (a gorfodol) sydd ar gael ar gyfer eu harchwilio yn y swyddfeydd cynllunio.

6.3 Os nad oes unrhyw warchodaeth gyfreithiol yn bodoli, efallai fod angen derbyn trwydded dorri yn yr un modd - mae hyn dan ddeddfwriaeth ar wahân. Mae hyn yn berthnasol os yw cyfaint y pren yn fwy na lefel penodol. Gall clirio safle, hyd yn oed ardaloedd bychain, fod yn fwy na chwota'r drwydded dorri yn rhwydd iawn. Gweinyddir trwyddedau torri coed gan y Comisiwn Coedwigaeth dan Ddeddf Coedwigaeth 1967.

6.4 Gellir cosbi'n llym am fynd yn groes i unrhyw rai o'r ffurfiau gwarchodaeth gyfreithiol hyn.

7 GWARCHOD COED

7.1 Mae'n hanfodol gwarchod y coed yn ffisegol yn ystod y datblygiad er mwyn osgoi difrod i'r coed gan waith adeiladu.

7.2 Y rhan o'r goeden sydd fwyaf tebygol o gael ei difrodi yw'r gwreiddiau sy'n cael eu hanwybyddu yn aml am nad ydynt i'w gweld. Bydd difrod i neu farwolaeth y system wreiddiau yn effeithio ar iechyd, twf, disgwyliad einioes a diogelwch gweddill y goeden. Efallai y bydd sawl blwyddyn yn mynd heibio cyn y daw effeithiau difrod o'r fath i'r amlwg.

7.3 Mae'n anodd proffwydo maint a lledaeniad y system o wreiddiau oherwydd effeithir ar dwf y gwreiddiau a'u datblygiad gan yr angen am i'r goeden fod yn sefydlog yn ffisegol ac argaeledd y maethynnau.

7.4 Gall y difrod i'r system wreiddiau fod yn ganlyniad i golli gofod ‘anadlu’ (e.e. lle gosodir arwyneb caled) neu stripio neu dyllu'r pridd. Mae gwasgu pridd o amgylch y gwreiddiau yn lleihau'r gofod sydd rhwng gronynnau'r pridd ac felly'r ocsigen sy'n bresennol. Mae hyn yn arbennig o bwysig gyda phriddoedd cleiog, lle gall un daith gan offer trwm beri niwed sylweddol. Hefyd, gall colli petrol neu ddiesel, neu hyd yn oed y calch sydd mewn sment, ddifrodi gwreiddiau y tu hwnt i'w hadfer. Gall symud uwchbridd a thyllu ar gyfer sylfeini wneud difrod difrifol i'r gwreiddiau hefyd.

7.5 Er mwyn atal difrod o'r fath, dylid gwarchod yr holl goed a gedwir ar y safle gyda ffensys cadarn (gweler ffigwr 1 a 2), ac fel isafswm dylai'r ffensys yma ymestyn at derfyn lledaeniad corun pob coeden. Dylid codi'r ffensys cyn i unrhyw ddeunyddiau neu beiriannau gael eu symud i'r safle a chyn dechrau unrhyw waith datblygu, yn cynnwys dymchwel neu godi cytiau ar y safle.

Ffig 1

LOCATIONS FOR PROTECTIVE FENCING



Ffig 2

PROTECTIVE FENCING



8 ÔL-OFAL

8.1 Dylid gwneud pob ymdrech i gadw a gwarchod y coed wedi cwblhau'r datblygiad. O ganlyniad, ceir amodau cynllunio a/neu gytundebau priodol ynghlwm wrth unrhyw ganiatâd cynllunio fel rheol er mwyn sicrhau bod unrhyw goed yn derbyn gofal am gyfnod penodol - 5 mlynedd fel rheol. Mae hyn fel rheol yn atal torri'r coed ac yn dweud ei bod yn ofynnol i'r datblygwr gyflawni gweithrediadau cynnal a chadw penodol. Lle bo hynny'n briodol, efallai y bydd y Cyngor yn ehangu'r cyfnod penodol hwn ar gyfer ôl-ofal drwy amodau cynllunio (i 7 mlynedd er enghraifft).

8.2 Anogir perchnogion/datblygwyr i ymgymryd ag arfer reoli gyffredinol yn gyfnodol mewn perthynas â choed unigol a grwpiau o goed er mwyn sicrhau eu hiechyd yn yr hirdymor a'u gwerth o safbwynt cadwraeth natur/gwerth gweledol.

9 FFURF Y CAIS

9.1 Wrth gyflwyno ffurflen gais am ganiatâd i gynnal gwaith ar goeden sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Cadw Coed (mae hon yn ffurflen wahanol i gais cynllunio), neu wneud cais ysgrifenedig ffurfiol ar gyfer coed mewn Ardal Gadwraeth, mae angen yr wybodaeth a ganlyn.

- Lleoliad y coed:-	Cyfeiriad llawn
	- Rhif Cae Arolwg Ordnans neu ddisgrifiad llawn o leoliad y goeden
- Perchnogaeth	- Gallwch wneud cais hyd yn oed os mai nid y chi yw perchennog y goeden, er enghraifft os ydych yn dymuno torri cangen sy'n crogi dros eich tir. Nid yw derbyn caniatâd yn rhoi hawl i chi weithio ar goed nad ydynt yn eiddo i chi.

- Manylion y Gorchymyn
- Y Bwriad
- Manylion y gwaith sydd i'w wneud
- Nodi'r Gorchymyn Cadw Coed sy'n gwarchod y coed.
- Manylion y gwaith sydd i'w wneud
- bydd o gymorth i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ymdrin â'r cais os rhoddwch resymau dros eich bwriad.

10 NODIADAU RHYBUDDIO

10.1 Ni ddylech wneud unrhyw waith ar goeden a warchodir gan Orchymyn Cadw Coed hyd nes y cewch ganiatâd ysgrifenedig. Os gwnewch unrhyw waith heb awdurdod, byddwch mewn perygl o gael eich erlyn, ac o dderbyn dirwy sylweddol a gorfod ailblannu. Nid ydych angen caniatâd i symud, diwreiddio neu ddinistrio coeden os yw wedi marw, yn marw neu'n beryglus. Mae'n rhaid i berchennog y goeden blannu coeden arall o faint a rhywogaeth briodol yn yr un lle cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol bosibl. Ac eithrio mewn argyfwng, mae'n rhaid rhoi o leiaf 5 niwrnod o rybudd ynghylch symud coeden i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, er mwyn iddo allu penderfynu pa un ai oes angen ailblannu ai peidio. Os oes amheuaeth ynghylch pa un ai yw coeden wedi marw, yn marw neu'n beryglus, a bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn penderfynu erlyn, bydd y baich o brofi yn gorwedd ar y diffynnydd

10.2 Mae caniatâd i dorri, tocio, brigdorri neu ddiwreiddio coed sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Cadw Coed yn benderfyniad a wneir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref. Nid yw'n cyfleu unrhyw gymeradwyaeth na chaniatâd sy'n ofynnol dan unrhyw ddeddf, is-ddeddf, gorchymyn neu reoliad arall. Gwiriwch â Gwasanaethau Cynllunio'r Cyngor a oes angen unrhyw fathau eraill o gymeradwyaeth os gwelwch yn dda.

Rhagor o wybodaeth
Nodyn Cyngor Technegol 10 - Gorchmynion Cadw Coed

CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

Cyfarwyddiaeth Amgylchedd • Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

Cysylltiadau:

Tîm Rheoli Datblygu y Gogledd
Ty Nant, Fforddd Llys Nant, Prestatyn, Sir Ddinbych LL19 9LL
Ffôn: 01824 708111 • Ffacs: 01824 706533
safle gwe: www.sirddinbych.gov.uk

Tîm Rheoli Datblygu y De
Trem Clwyd, Canol y Dre, Rhuthun, Sir Ddinbych LL15 1QA
Ffôn: 01824 708111 • Ffacs: 01824 708039
safle gwe: www.sirddinbych.gov.uk

Gellir cysylltu â'r Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd hefyd drwy e-bost dcc_planning@denbighshire.gov.uk
Gellir cysylltu â Thimau Rheoli Adeiladu Ardaloedd y Gogledd a'r De yn yr uchod hefyd.